# PWYLLGOR PENODI B

## DYDD MERCHER, 19 GORFFENNAF 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd J. Tremlett (Cadeirydd) **(Yn y Siambr)**

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| D.C. Evans | H.A.L. Evans | L.D. Evans | R. James |
| D. Jones | D. Price | E.G. Thomas | A. Vaughan Owen |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
M. Palfreman

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
W. Walters, Prif Weithredwr
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
H. Daniels, Ymgynghorydd Datblygu Corfforaethol
A. Machin, Rheolwr Dysgu a Datblygu
S. Dougherty, Ymgynghorydd Dylunio Trefniadaeth
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 2.00 - 4.30 yp**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G.H. John a H.B. Shepardson.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

### 3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALWYD AR Y 6ED O ORFFENNAF 2022

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022 yn gofnod cywir.**

### 4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf sef gwybodaeth ynghylch ymgeiswyr oedd yn cynnig am swydd gan yr Awdurdod.**

5. **DERBYN NODIADAU GWEITHREDU CYFARFOD O'R PANEL RHESTR FER A GYNHALIWYD AR Y 13 MEHEFIN 2023**

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Panel Rhestr Fer oedd wedi ei gynnal ar 13 Mehefin 2023.**

6. **CAEL CYFLWYNIADAU A CHYFWELD Â'R YMGEISWYR SYDD AR Y RHESTR FER AR GYFER Y SWYDD PENNAETH SEILWAITH AMGYLCHEDDOL AC YSTYRIED PENODI**

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

Cafodd y Pwyllgor ei hysbysu o'r broses ddethol hyd yn hyn a'r fformat a awgrymwyd ar gyfer y cyfarfod. Nododd y Pwyllgor y byddai'r ddau ymgeisydd ar y rhestr fer yn cael cyfweliad.

Cafodd y Pwyllgor adborth gan swyddogion mewn perthynas â'r broses recriwtio ac asesu a'i gasgliadau.

Yna, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y ddau ymgeisydd a chafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i'r ymgeiswyr.

Yn dilyn trafodaeth a phleidlais, -

**PENDERFYNWYD PENODI DANIEL JOHN YN BENNAETH SEILWAITH AMGYLCHEDDOL.**

[Galwyd Daniel John yn ôl i'r cyfarfod, a dywedodd ei fod yn derbyn y swydd.]

**CHAIR** ________________________ **DATE** ____________________